# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Sea View House**

**Calon Fawr Nursing Home Ltd**
**Lôn Masarn, Sgeti**
**Abertawe**
**SA2 9EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Sea View House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Calon Fawr Nursing Home Limited yn masnachu fel Swansea Living Solutions |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Mehefin 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae gan Sea View House awyrgylch hamddenol a chyfeillgar. Mae’r bobl yn mwynhau byw yn y cartref; maent yn gwneud dewisiadau bob dydd ac mae ganddynt gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i bennu a chyflawni nodau personol. Mae'r bobl yn cymdeithasu gydag eraill yn y cartref ac yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau cymunedol. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r gweithwyr gofal a'r rheolwyr. Mae gweithwyr gofal ar gael i roi cymorth i'r bobl pan fydd ei angen arnynt. Maent yn deall sut i gadw'r bobl yn ddiogel ac yn hyrwyddo eu hiechyd a'u llesiant.

Mae'r bobl yn byw mewn llety cyfforddus sydd â'r cyfleusterau i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae amrywiaeth o welliannau amgylcheddol wedi cael eu gwneud ac yn dal i gael eu gwneud. Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol wedi gwella'r gweithdrefnau recriwtio i sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan weithlu diogel ac addas. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y tîm rheoli. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol a chynlluniau personol manwl i arwain y gweithwyr gofal yn eu hymarfer. Mae gan y rheolwyr systemau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth ac i gyflwyno newidiadau cadarnhaol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn fodlon yn Sea View House. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u dewisiadau unigol. Mae'r bobl yn pennu nodau y mae'r gweithwyr gofal yn eu helpu i'w cyflawni, gan roi ymdeimlad o gyflawniad iddynt. Mae'r cynlluniau personol yn arwain y gweithwyr gofal i hyrwyddo iechyd ac annibyniaeth y bobl. Mae'r bobl yn cwblhau tasgau cartref, megis coginio a glanhau. Mae'r gweithwyr gofal yn eu cefnogi i gadw'n iach ac yn egnïol. Mae safon dda o hylendid yn helpu i leihau risgiau heintio.

Mae'r rheolwyr yn ystyried anghenion a chefndiroedd y bobl yn ofalus cyn iddynt symud i mewn i'r cartref. Mae hyn yn sicrhau bod y cartref yn addas ar gyfer helpu'r bobl i gyflawni'r canlyniadau y maent am eu cyflawni o'u gofal a'u cymorth. Caiff y lefelau staffio eu hadolygu a'u haddasu i fodloni gofynion y gwasanaeth. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol wedi gweithredu i wella'r gweithdrefnau recriwtio ac maent yn sicrhau y caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n addas ar gyfer eu rolau gofalu. Mae'r staff yn glir ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth yn ofalus, gan osod a llywio camau i wella'r gwasanaeth.

Mae'r cartref yn fawr ac mae amrywiaeth dda o gyfleusterau i helpu'r bobl i ddatblygu eu hannibyniaeth. Mae'r cartref mewn cyflwr da ar y cyfan, ac mae'r gwiriadau a'r arolygiadau amgylcheddol angenrheidiol yn cael eu cyflawni. Gall y bobl leisio eu barn am sut y caiff eu cartref ei addurno. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ychwanegu cyffyrddiadau personol i ardaloedd cymunedol a'u creu yn ardaloedd mwy cartrefol. Mae rhaglen adnewyddu wedi'i chyflwyno i sicrhau bod y bobl yn parhau i gael budd o waith uwchraddio amgylcheddol.

Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser gydag eraill yn y cartref ac yn y gymuned. Maent yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn unigol ac fel grŵp. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i ddilyn eu diddordebau. Mae rotas staffio yn nodi gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y bobl ac amser un i un. Mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau da â'u gweithwyr allweddol a gydag aelodau eraill o'r staff. Dywedodd un person *"I'm very happy here".*

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn ystyried ystod eang o wybodaeth, er mwyn pennu a all y cartref ddiwallu anghenion unigol y bobl. Mae'r broses dderbyn wedi'i nodi yn y polisi atgyfeirio a derbyn. Mae'r rheolwr yn cynnal asesiadau cyn derbyn manwl sy'n ystyried asesiadau risg a chynlluniau cymorth a gaiff eu cwblhau gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Rhoddir canllaw ysgrifenedig i'r bobl sy'n egluro'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Maent yn cael cyfleoedd i ymweld â'r cartref a threfnu arosiadau byr yn y cartref cyn iddynt symud i mewn. Mae'r rheolwr yn cynnwys y bobl a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol wrth wneud y trefniadau hyn. Dywedodd y bobl wrthym fod y broses o symud i'r cartref wedi bod yn ddidrafferth: *"I'd definitely recommend this place."*

Mae'r rheolwr wedi cwblhau adolygiad llawn o gofnodion gofal, gan sicrhau bod yr asesiadau risg a'r cynlluniau personol yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion y bobl yn gywir. Mae'r bobl yn gosod nodau y maent am eu cyflawni, sy'n cael eu cynnwys yn eu cynlluniau personol. Mae'r gweithwyr gofal yn cyfarfod â'r bobl bob wythnos i drafod eu cynlluniau ar gyfer yr wythnos i ddod. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gefndiroedd iechyd a chymdeithasol y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod beth yw'r strategaethau gorau ar gyfer rheoli risgiau gan gefnogi'r bobl i gyflawni eu nodau. Cânt gyfleoedd i rannu profiadau yn ystod cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio ffurfiol unigol. Dengys y cofnodion fod y bobl yn cael y feddyginiaeth a ragnodwyd ar eu cyfer yn gyson. Lle y bo'n briodol, caiff y bobl eu cefnogi'n ddiogel i reoli eu meddyginiaeth eu hunain. Mae'r gweithwyr gofal yn cysylltu â'r gwasanaethau meddygol ac arbenigol i hyrwyddo iechyd y bobl a sicrhau eu bod yn cael y gofal gorau posibl. Maent yn cysuro ac yn rhoi sicrwydd i'r bobl sy'n gwella eu llesiant emosiynol a meddyliol.

Mae'r bobl yn mwynhau bywyd cymdeithasol egnïol. Cânt eu hannog i ddilyn eu diddordebau yn unigol a gydag eraill. Er enghraifft, mae'r bobl yn mwynhau prydau allan, garddio, nofio, ping pong, chwarae gemau a theithiau i leoedd o ddiddordeb. Gwelsom y bobl yn gwneud cynlluniau â'r staff i gwblhau gweithgareddau penodol. Roedd y staff yn gefnogol o geisiadau'r bobl, ac yn dod o hyd i ffyrdd o'u hwyluso. Mae'r rheolwyr yn sicrhau'r awdurdodiadau gofynnol ar gyfer pobl y mae eu rhyddid wedi ei gyfyngu. Fodd bynnag, nid yw'r rhesymeg ar gyfer cyfyngu ar fynediad i'r gegin gymunedol yn glir. Cytunodd y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol i adolygu'r risgiau cyfredol a'r cofnodion perthnasol i sicrhau y caiff y bobl eu cefnogi yn y ffordd leiaf cyfyngol. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae'r bobl yn bwyta gyda'i gilydd yn rheolaidd wrth i bob un ohonynt gymryd cyfrifoldeb am baratoi a choginio prydau bwyd. Disgrifiodd un person eu pryd cinio fel *"beautiful"*. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i gynllunio prydau amrywiol, iach ac i gadw cofnodion clir o'r hyn y mae'r bobl yn ei fwyta ac yn ei yfed.

Mae'r cartref yn hyrwyddo arferion hylendid a rheoli heintiau da. Mae'r gweithwyr gofal yn annog y bobl i gadw eu hamgylchedd yn lân ac yn daclus. Mae tasgau domestig yn cael eu

cynnwys mewn cynlluniau wythnosol, y mae pobl yn eu harddangos ar hysbysfyrddau yn eu hystafelloedd. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant, mewn perthynas â rheoli heintiau a hylendid bwyd. Gwelsom fod pob rhan o'r cartref yn lân ac yn hylan.

## Yr Amgylchedd

Mae Sea View House yn adeilad tri llawr sy'n cynnig digon o le dros y ddau lawr gwaelod. Nid yw'r llawr uchaf yn hygyrch i'r bobl am ei fod yn cael ei ddefnyddio i storio cyfarpar a dogfennau wedi'u harchifo. Roedd y bobl yn falch o ddangos eu hardal breifat i ni, sy'n cynnwys ystafell wely gydag ystafell gawod ensuite a lolfa ar wahân. Gwelsom lawer o eitemau hamdden yn ystafelloedd y bobl, gyda chyffyrddiadau personol, megis tystysgrifau wedi'u fframio a gwaith crefft. Mae gan y bobl eu cyfleusterau eu hunain i wneud diodydd poeth. Maent yn cael cymorth gan weithwyr gofal i ddefnyddio'r ystafell golchi dillad ar ddiwrnodau penodol. Gwelsom y bobl yn ymlacio ac yn treulio amser gydag eraill yn y gwahanol ystafelloedd cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys lolfa, ystafell fwyta a heulfan gyda bwrdd ping pong. Mae'r bobl yn helpu i gynnal eu gardd fawr drwy dorri'r lawnt a thorri llwyni. Roedd dwy ardal ysmygu ar wahân i'r bobl eu defnyddio.

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud llawer o welliannau amgylcheddol ers yr arolygiad llawn ddiwethaf ym mis Hydref 2022. Er enghraifft, mae'r ystafelloedd cymunedol a'r coridorau wedi cael eu hail-baentio ac mae carpedi newydd wedi cael eu gosod ar hyd coridorau'r llawr cyntaf. Mae'r canllawiau wedi cael eu paentio mewn lliw sy'n wahanol i liw'r waliau er mwyn eu gwneud yn fwy gweladwy. Cytunodd y bobl ar gynllun lliwiau a fyddai'n diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau. Mae arwyddion drysau newydd wedi cael eu prynu, gan roi enw ar ystafell pob person. Mae bleinds newydd wedi cael eu harchebu ar gyfer yr ystafelloedd cymunedol ac mae amrywiol ddarnau o ddodrefn yn cael eu diweddaru. Mae'r bobl wedi helpu gyda hyn fel rhan o weithgaredd creadigol. Mae to newydd hefyd wedi'i osod ar y swyddfa weinyddol. Dywedodd y rheolwr wrthym am gynlluniau pellach i wneud yr amgylchedd yn fwy cartrefol. Er enghraifft, mae'r bobl wedi cymryd ffotograffau o'r traeth ar eu teithiau i'w hargraffu ar gynfasau a'u harddangos yn y coridorau. Mae gorchuddion a chlustogau newydd wedi cael eu prynu ar gyfer y soffas hefyd. Mae cynllun adnewyddu ar waith er mwyn sicrhau bod y gwaith uwchraddio'n parhau. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r gwaith o adnewyddu ystafell wely gydag ystafell gawod ensuite a symud ystafell feddyginiaeth i ystafell sy'n fwy o faint ar y llawr gwaelod. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn ychwanegu terfynau amser amcangyfrifedig at y cynllun adnewyddu, y gallant eu hadolygu yn ystod y gwaith o sicrhau ansawdd.

Mae gan y cartref swyddog cynnal a chadw sy'n cwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch arferol ac yn cwblhau gwaith cynnal a chadw a gwaith atgyweirio cyffredinol. Lle y bo'n briodol, gwneir trefniadau i gontractwyr allanol gwblhau gwaith arbenigol. Mae'r bobl yn helpu'r swyddog cynnal a chadw i gynnal gwiriadau wythnosol ar gerbyd y cartref, y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer rhai teithiau ac apwyntiadau. Mae'r cofnodion yn dangos bod cyfleustodau a chyfarpar diogelwch tân wedi cael eu harolygu'n ddiweddar a'u bod mewn cyflwr da. Gwelsom fod cemegau yn cael eu storio'n ddiogel. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, iechyd a diogelwch, diogelwch tân a chymorth cyntaf. Mae'r gwasanaeth yn cadw cofnod o'r ymwelwyr sy'n cyrraedd ac yn gadael yr adeilad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ym mis Mehefin 2023, gwelsom fod gweithdrefnau recriwtio anniogel yn peri risg i ddiogelwch a llesiant y bobl. Cyhoeddwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth gennym yn gofyn i'r darparwr fynd i'r afael â hyn. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y gweithdrefnau recriwtio wedi gwella. Mae polisi recriwtio wedi'i roi ar waith i arwain y rheolwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau. Mae'r rheolwr wedi adolygu'r ddogfennaeth recriwtio i'r holl gyflogeion er mwyn sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol ar gael. Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau personél a gwelsom fod y dogfennau recriwtio gofynnol ar waith. Mae'r staff wedi'u fetio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae systemau ar waith ar gyfer asesu addasrwydd aelod o'r staff i gael ei gyflogi ar sail y wybodaeth a gesglir yn ystod y broses recriwtio a fetio. Caiff arferion y staff eu hadolygu'n ffurfiol bob tri mis, neu'n fwy aml os bydd angen. Eir i'r afael ag unrhyw faterion perfformio neu ymddygiad drwy weithdrefnau disgyblaeth.

Mae trosiant uchel o staff wedi bod ers yr arolygiad diwethaf, ond mae'r lefelau staffioyn sefydlog erbyn hyn. Caiff rotas eu haddasu i sicrhau y caiff y bobl yr amser un i un sydd ei angen arnynt. Pan fo angen, dyrennir staff ychwanegol i weithio er mwyn i'r bobl fwynhau diwrnodau allan. Mae'r rheolwr wedi diweddaru'r holl bolisïau a gweithdrefnau i arwain y staff yn eu hymarfer ac mae'n bwriadu cyflwyno 'polisi y mis' er mwyn sicrhau bod y materion yn cael eu trafod. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau diogelu ac maent yn hyderus y byddai'r rheolwyr yn ymdrin gydag unrhyw bryderon lles yn gyflym. Mae polisi diogelu'r cartref yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i'w rolau. Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ac arbenigol arall sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r rheolwr yn cefnogi'r staff i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gweithwyr gofal. Roeddent yn siarad yn gynnes am yr amser y maent yn ei dreulio gyda'i gilydd a'r diddordebau y maent yn eu rhannu. Dywedodd un person, *“They pay me in kindness”*.

Caiff y bobl eu hamddiffyn gan systemau gwaith diogel. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol wedi cwblhau camau a bennwyd gan y comisiynwyr i wella safonau. Maent yn cysylltu ac yn cyfathrebu'n agored â'i gilydd yn rheolaidd. Gwelsom fod y bobl yn teimlo'n gyfforddus wrth siarad â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r rheolwr yn weladwy ac yn darparu cymorth ymarferol yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt ac y cânt eu cefnogi'n llawn:

- *“There is strong support from management, directors and RI.”*
- *“They’re spot on - nothing goes past the managers.”*
- *“They take on board views and suggestions.”*

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn mynychu cyfarfodydd staff yn fisol ac yn asesu safonau'r gwasanaeth yn ystod yr ymweliadau ffurfiol bob tri mis a'r adolygiadau ar ansawdd y gofal bob chwe mis. Gofynnir i'r bobl fynegi eu barn yn ystod y prosesau hyn. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol rwydwaith cymorth i rannu gwybodaeth a chael y wybodaeth ddiweddaraf

am ddeddfwriaeth. Mae'r darparwr wedi buddsoddi yn y gwasanaeth drwy ehangu'r tîm o staff a gwneud gwaith uwchraddio amgylcheddol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 35 | Mae'r darparwr wedi methu â chyflogi staff sy'n addas ar gyfer eu rolau gofalu. Ni chafwyd gwybodaeth lawn a boddhaol, fel y nodir yn Atodlen 1 y Rheoliadau, er mwyn helpu i bennu addasrwydd y staff ar gyfer cyflogaeth. Nid yw'r camau gweithredu priodol ac amserol wedi'u cymryd i ddiogelu'r bobl wrth i wybodaeth newydd awgrymu nad yw aelodau o'r staff yn bodloni'r meini prawf addasrwydd bellach. Mae angen i'r darparwr roi systemau dethol a fetio trwyadl ar waith i'w alluogi i wneud penderfyniad ar benodi neu wrthod pob ymgeisydd o blith y staff. Mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth ystyried pob darn o | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | wybodaeth sydd ar gael er mwyn pennu a yw darpar aelod o staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol ac o gymeriad da i ymgymryd â'i rôl. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn atodlen 1 y Rheoliadau. Os na fydd staff yn cyflawni'r meini prawf addasrwydd mwyach, bydd yn rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau priodol yn ddi-oed i sicrhau na fydd risg i'r bobl. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 6 | Nid yw'r gwasanaeth wedi cael gofal, cymhwysedd a sgìl digonol. Mae'n rhaid i'r darparwr roi diogelwch a llesiant y bobl wrth wraidd unrhyw benderfyniad a wneir. | Cyflawnwyd |
| 26 | Mae diogelwch a llesiant y bobl wedi cael eu peryglu gan arferion recriwtio anniogel. Mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddiogel. Ni ddylai staff gael eu cyflogi i weithio yn y gwasanaeth oni bai eu bod yn addas i wneud hynny. | Cyflawnwyd |
| 44 | Rhaid i raglen ailwampio gael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y safle'n cynnwys dodrefn a chyfarpar addas ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/01/2024